



Cymorth i Ferched Cymru
 Welsh Women's Aid
 Rhai Merched a Phlant yn Gyntaf
 Putting Women & Children First

CEFNOGWCH NI



GALL POBL O
 bob cefndir
 BROFI
 TRAIS

Mae hwn yn fusnes i bawb.

“Nid un math penodol o fenyw sy'n profi hyn.

Mae i'w weld ym mhobman, ym mhob rhan o'r gymuned ac ym mhob cymuned.”

Goroeswr



Ar draws Cymru mae miloedd o bobl yn profi cam-drin domestig, trais rhywiol, anffurfio organau cenhedlu benywod, cam-drin plant yn rhywiol, priodas dan orfod, trais ar sail 'anrhydedd', stelcio, aflonyddu rhywiol a cham-fanteisio rhywiol.

Gall ddigwydd, ac mae'n digwydd i unrhyw un, beth bynnag eu hoed, ethnigrwydd, gallu, rhywioldeb, rhyw, cyfrifoldeb gofawr, incwm teuluol, hunaniaeth rhywedd, statws mewnffudo, daearyddiaeth neu grefydd.

Ond yn fyd-eang, fel yng Nghymru, caiff menywod a merched eu heffeithio'n anghymesur gan y mathau hyn o drais, a gaiff ei achosi gan anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod ac sy'n cynyddu'r anghydraddoldeb hwnnw.



1 fenyw mewn 3

Mae un fenyw mewn tair yng Nghymru wedi profi rhyw fath o drais corfforol neu rhywiol.

(FRA, Trais yn erbyn menywod: arolwg ar draws yr UE/Sefydliad Iechyd y Byd)



“Roeddwn i'n ofni bod yn fi.”

Goroeswr

Felly camwch yn ôl a meddylwch am ffrindiau, aelodau o'r teulu neu gydweithwyr rydych chi'n eu hadnabod. Mae'n debygol y bydd rhai ohonyn nhw wedi goroesi, neu yn goroesi trais neu gam-drin.

Mae trais yn erbyn menywod yn fusnes i bawb a gall pawb wneud gwahaniaeth - felly gwnewch safiad heddiw.

Cymorth i Ferched Cymru yw'r elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu pob math o drais yn erbyn menywod. Rydym ni'n gweithio i atal trais a gwneud yn siŵr fod pob menyw, dyn, plentyn a pherson ifanc sydd angen cymorth a man diogel yn gallu cael cymorth pan fydd ei angen.


30,000
o gysylltiadau

Yn 2016/17 derbyniodd Llinell Gymorth Byw Heb Ofn – ar gyfer unrhyw un sydd wedi'i effeithio gan gam-drin domestig, trais rhywiol a phob math arall o drais yn erbyn menywod – dros 30,000 o alwadau, negeseuon ebost ac ymholiadau sgwrsio gwe.



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Cefnogwch ni

Ymunwch â ni i adeiladu mudiad yng Nghymru fel nad yw trais a cham-drin yn anochel nac yn dderbyniol.

Cewch glywed y diweddaraf am ein gwaith ac **ymgyrchu** gyda ni, **codi arian** i ni neu wneud **rhodd** i helpu i sicrhau bod pawb yn gallu cael eu gwarchod, a derbyn yr help a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw.

Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth.



Live Fear Free Helpline Llinell Gymorth
Byw Heb Ofn
0808 80 10 800

Lluniwyd hwn gyda grŵp o oroeswyr, gyda llawer ohonynt yn aelodau o brosiect cyfranogi goroeswyr Cymorth i Ferched Cymru, SEEdS.

RHAGOR O WYBODAETH

welshomensaid.org.uk
/support-us

Cymorth i Ferched Cymru, Tŷ Pendragon,
Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE
Rhif Elusen Gofrestredig 1140962

